# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023

Amser: 09.01 - 09.24

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Adeiladau (30 munud)
- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr EU a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio (30 munud)~~ – Gohiriwyd tan 28 Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.15pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 28 Mawrth 2023**

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr EU a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio (30 munud)
- Dadl: Cyfnod Terfynol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mawrth 25 Ebrill 2023**

- Gorchymyn Contractau Adeiladu (Eithrio) (Cymru) 2023 (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 29 Mawrth 2023 –**

- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Pleidleisio drwy Ddirprwy (15 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau Amrywiol (5 munud)

**Dydd Mercher 3 Mai 2023 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Datgarboneiddio'r sector tai preifat (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer: Carolyn Thomas (Gogledd Cymru) (30 munud)

### 3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau - dethol cynnig i'w drafod

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 29 Mawrth:

**Tom Giffard**

**NNDM8232**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig i greu Bil twristiaeth Cymru.

2. Yn nodi mai pwrpas y Bil hwn fyddai:

a) dirymu Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Bwrdd) 2005;

b) creu bwrdd twristiaeth newydd i Gymru;

c) trosglwyddo swyddogaethau Croeso Cymru a grymoedd Llywodraeth Cymru cysylltiedig i'r bwrdd newydd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

i) annog pobl i ymweld â Chymru a phobl sy'n byw yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig i fynd ar eu gwyliau yno;

ii) annog darparu a gwella mwynderau a chyfleusterau twristiaeth yng Nghymru;

iii) hyrwyddo cyhoeddusrwydd;

iv) darparu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth; a

v) sefydlu pwyllgorau i'w cynghori ynghylch perfformiad ei swyddogaethau.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch amserlen Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru). Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes y pwyntiau a godwyd yn y llythyr ynghylch y potensial i gyflwyno Biliau eraill mewn meysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ystod yr un cyfnod.

Cydnabu'r Trefnydd yr angen i roi eglurder ar y materion hyn a hysbysodd y Rheolwyr Busnes fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno Bil Cydsynio Seilwaith cyn diwedd tymor yr haf, ac y bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn rhoi'r diweddaraf am ddiogelwch tomenni glo ar ffurf datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach yr wythnos hon.

### 4.2 Papur i'w nodi – Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

### 4.3 Papur i'w nodi – Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol

(Memorandwm Rhif 4) ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) i 27 Mawrth 2023, a hynny yn sgil symud y ddadl i 28 Mawrth.

### 4.4 Papur i'w nodi – Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Amserlen y Senedd

### 5.1 Dyddiadau'r toriadau

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor yr hydref a thoriad y Nadolig 2023, a chytunodd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer toriad hanner tymor y gwanwyn a thoriad y Pasg 2024.

Wrth wneud hynny, trafododd y Pwyllgor Busnes argymhelliad 14 yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a gynigiodd y dylai'r Pwyllgor Busnes *"ystyried ar fyrder a ddylid ymestyn tymor yr hydref i 22 Rhagfyr 2023, er mwyn darparu ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor hwn ac eisteddiadau Cyfarfod Llawn ychwanegol a allai fod yn ofynnol ar gyfer ystyried rheoliadau sy'n deillio o'r Bil"*.

Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad na fyddai'n gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer toriad Nadolig 2023 ar hyn o bryd, o ystyried nad yw ffurf derfynol y Bil na sut y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'w ddarpariaethau yn hysbys eto, ond y byddai'n ystyried ailedrych ar y mater hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn yn ôl yr angen.

### 5.2 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg 2023

Trafododd y Pwyllgor Busnes y papur a:

- chytunodd ar y trefniadau ar gyfer cyflwyno busnes y Cyfarfod Llawn, cwestiynau ysgrifenedig a gwelliannau i Filiau yn ystod toriad y Pasg, a nodyn drafft i'r Aelodau;
- nododd y newidiadau i'r trefniadau cyflwyno, sy'n ofynnol o ganlyniad i Ŵyl Banc Calan Mai, Gŵyl Banc Coroni'r Brenin Charles III a Gŵyl Banc y Sulgwyn.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

### 6.1 Trafod yr adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog: Pleidleisio drwy ddirprwy

Trafododd a chytunodd y Pwyllgor Busnes ar ei adroddiad, a diwygiadau cysylltiedig i'r canllawiau, o'i ystyriaethau a'i gynigion ar ddarpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 29 Mawrth.

### 6.2 Trafod yr adroddiad drafft ar ddiwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau amrywiol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ei adroddiad ar nifer o newidiadau amrywiol i'r Rheolau Sefydlog, ac i gyflwyno cynnig ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 29 Mawrth.